**NASUWT** Undeb yr Athrawon **CYMRU** The Teachers' Union

**RHESTR WIRIO**

# Rhestr Wirio ar Amser dan Gyfarwyddyd

## Diben y rhestr wirio

Mae NASUWT yn credu bod polisïau amser dan gyfarwyddyd sy'n glynu at yr egwyddorion a amlinellwyd isod yn cynrychioli arfer da, ac y dylai aelodau NASUWT fod yn ymwybodol o'r egwyddorion hyn wrth ymdrin â materion sy'n ymwneud ag amser dan gyfarwyddyd yn yr ysgol.

Mae'r Undeb yn credu y bydd yr egwyddorion y cyfeiriwyd atynt isod yn helpu athrawon ac ysgolion/arweinwyr ysgol i sicrhau bod calendrau amser dan gyfarwyddyd yn cael eu cyfrifo mewn ffordd sy'n galluogi i'r gweithlu gael cydbwysedd boddhaol rhwng bywyd a gwaith a gwneud cynlluniau i gyd-fynd â materion y tu mewn a'r tu allan i'r gwaith, gan ddarparu'r profiadau addysgol gorau posib i'r plant a'r bobl ifanc.

Felly, bydd ysgolion ac arweinwyr ysgol yn gweithio gyda NASUWT a'u staff i sefydlu calendr amser dan gyfarwyddyd y cytunwyd arno, gan ddefnyddio methodoleg briodol (e.e. taenlen Excel, megis cyfrifiannell amser dan gyfarwyddyd) NASUWT) i ddyrannu hyn yn briodol.

Wrth wneud hynny, dylai pob athro ac athrawes ddeall y maint o oriau y gallent gael eu cyfarwyddo i'w gweithio i gyflawni eu dyletswyddau proffesiynol, gan gynnwys y gwaith addysgu ar eu hamserlenni yn ogystal ag unrhyw gyfarfodydd a dyletswyddau (e.e. ymgynghoriadau â rhieni, amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA), amser arwain a rheoli a chyfarfodydd cysylltiedig).

Mae gwybodaeth fanylach ynglŷn ag amser dan gyfarwyddyd i'w gweld ar ein gwefan Amser dan gyfarwyddyd'.

Mae NASUWT hefyd wedi cynhyrchu canllawiau penodol ynglŷn â sut i ymdrin â llwyth gwaith gormodol, sydd ar gael ar: www.nasuwt.org.uk/TacklingExcessiveTeacherWorkloadWales.

**Dyma elfennau allweddol pob polisi amser dan gyfarwyddyd:**

Dylai pob polisi sy'n ymwneud â chalendrau amser dan gyfarwyddyd nodi a dangos manylion eglur yr amseroedd a ganlyn pan mae'n dderbyniol i chi gael eich cyfarwyddo yn y gwaith, yn cynnwys:

- ✓ y cyfnod rhwng dechrau a diwedd y diwrnod ysgol, ac eithrio'r amser cinio (o hyd rhesymol rhwng 12 canol dydd a 2pm), wedi ei luosi gyda 190 o ddiwrnodau, sy'n cynnwys:
  - ✓ unrhyw 'amser clustogi' ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol pan mae disgyblion yn bresennol (190 o ddiwrnodau);
  - ✓ egwyliau a dyletswyddau goruchwylio; a
  - ✓ chyfarfodydd rheoli perfformiad.
- ✓ yr oriau gwaith ar gyfer y pum niwrnod hyfforddiant mewn swydd (HMS) gan gynnwys y diwrnodau hynny sydd wedi eu hymrannu;
- ✓ unrhyw gyfarfodydd ar ôl yr ysgol (e.e. cyfarfodydd yr ysgol gyfan neu'r adrannau unigol) – dylid cyfrifo hyn ar sail yr egwyddor na ddylid cael mwy nag un cyfarfod bob wythnos ac na ddylent bara'n hirach nag awr;
- ✓ unrhyw ymgynghoriadau â rhieni – dylid cyfrifo hyn ar sail yr egwyddor na ddylid cael mwy nag un cyfarfod bob blwyddyn ar gyfer pob grŵp blwyddyn;
- ✓ nosweithiau agored;
- ✓ unrhyw 'amser caeth' sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd lle na fydd hi'n bosibl i chi fynd adref ac yna ddychwelyd cyn dechrau cyfarfodydd a/neu ddigwyddiadau yn yr ysgol (e.e. nosweithiau rhieni);

- ✓ unrhyw oriau a glustnodir yng nghynlluniau wrth gefn yr ysgol (nid yw hyn o anghenraid yn cynnwys yr holl oriau sy'n weddill hyd at 1,265 o oriau ar gyfer amser dan gyfarwyddyd); ac
- ✓ unrhyw adeg arall pan fo'r ysgol yn eich cyfarwyddo i fod yn y gwaith.[1]

Yn eich calendr amser dan gyfarwyddyd, ni ddylid disgwyl i chi:

- ✗ weithio yn ystod eich amser cinio (dylai hwn fod o hyd rhesymol rhwng 12 canol dydd a 2pm), neu fynd i gyfarfodydd amser cinio;[2]
- ✗ fynd i unrhyw gyfarfodydd eraill y tu allan i'r diwrnod ysgol arferol sydd heb gael eu cytuno'n barod fel rhan o'ch calendr amser dan gyfarwyddyd, gan gynnwys i werthuso/rheoli perfformiad;
- ✗ weithio ar drefn gyflenwi ar sail rota fel rhan o'ch calendr amser dan gyfarwyddyd;
- ✗ oruchwylio arholiadau, asesiadau statudol (TASau) nac arholiadau/asesiadau ffug fel rhan o'ch calendr amser dan gyfarwyddyd;
- ✗ weithio am faint penodol o oriau y tu allan i'r diwrnod ysgol arferol, gan gynnwys darllen negeseuon e-bost ac ymateb iddynt (sef yr hawl i 'gau'r drws ar eich gwaith').

Dylai polisi amser dan gyfarwyddyd hefyd gadarnhau:

- nad yw'r 1,265 o oriau y gellir cyfarwyddo athrawon dros 195 o ddiwrnodau yn ddyraniad y mae'n rhaid ei gyflawni;
- dim ond gyda chytundeb y gweithwyr a'u hundebau llafur cydnabyddedig yn yr ysgol, yn dilyn asesiad o'r effeithiau ar gydraddoldeb, y defnyddir diwrnodau HMS wedi eu hymrannu;
- na ddylid disgwyl i athrawon gynhyrchu mwy nag un adroddiad y flwyddyn i'r rhieni;
- na ddylid rhoi unrhyw gyfarfod arall y tu allan i sesiynau ysgol ar y calendr mewn wythnos lle mae cyfarfod ymgynghori â'r rhieni wedi ei amserlennu;
- y clustnodir amser arwain a rheoli i athrawon sy'n derbyn taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD) ac i athrawon sy'n cael eu talu ar yr Ystod Cyflog Arweinyddiaeth;
- bod y 1,265 o oriau ar gyfer amser dan gyfarwyddyd yn berthnasol i athrawon sy'n derbyn taliadau CAD;
- bod isafswm o 10% o amser addysgu wedi ei neilltuo ar amserlenni athrawon ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu (CPA);
- y gellir cyfarwyddo athrawon sy'n derbyn taliadau ychwanegol am weithgareddau dysgu a datblygiad proffesiynol parhaus (CPD) y tu allan i oriau ysgol i wneud y gweithgareddau hyn y tu allan i'w horiau o amser dan gyfarwyddyd;
- na ddylid newid neu addasu'r calendr amser dan gyfarwyddyd unwaith y cytunwyd arno gyda'r gweithwyr a'u hundebau llafur cydnabyddedig, heblaw bod amgylchiadau eithriadol yn codi y cytunir arnynt gyda'r unigolyn perthnasol a'r undebau llafur cydnabyddedig; ac
- y bydd yr ysgol yn cydweithio â'r gweithwyr a'u hundebau llafur i gytuno ar y gyllideb amser dan gyfarwyddyd ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf gynted ag y bo modd ar ôl gwyliau Pasg.

*Gweithwyr rhan amser*

Dylai polisi amser dan gyfarwyddyd gadarnhau:

- bod yr amser dan gyfarwyddyd a ddisgwylir gan athrawon rhan amser yn gyfwerth pro rata ac yn rhoi ystyriaeth i'r oriau yn ystod sesiynau ysgol sydd wedi eu hamserlennu ar gyfer gwaith addysgu, gan gynnwys amser CPA ac amser digyswllt arall, ac eithrio egwyliau, cyfnodau cofrestru a gwasanaethau; ac
- na ellir gofyn i athrawon rhan amser weithio neu fod yn bresennol ar ddiwrnodau heb ddisgyblion, neu rannau o ddiwrnodau, ar y dyddiau pan nad ydynt yn gweithio fel arfer, heblaw bod cytundeb rhwng y ddwy ochrt;[3]

---

[1] Dylid ymgynghori a chytuno ar hyn.

[2] Ni fyddai hyn yn cynnwys unrhyw athrawon sydd wedi cytuno ar gontractau ar wahân i wneud dyletswyddau goruchwylio yn ystod amser cinio.

[3] Pan fydd y ddwy ochr yn cytuno i hynny, dylech ddisgwyl derbyn cyflog priodol am yr amser ychwanegol hwn a dylai polisi cyflog eich ysgol nodi hyn.

*Athrawon ar gamau cynnar yn eu gyrfaoedd*

Dylai polisi amser dan gyfarwyddyd gadarnhau:

- y gofynion sylfaenol statudol am ostwng yr amser addysgu ar amserlen athrawon newydd yn rhan o'u rhaglenni ymsefydlu.

**Amser a enillwyd**

Mewn perthynas ag amser a enillwyd ar gyfer yr athrawon hynny a allai gael eu rhyddhau o rai o'u hymrwymiadau addysgu ar yr amserlen oherwydd bod eu disgyblion ar gyfnod astudio neu wyliau arholiad, dylai'r polisi amser dan gyfarwyddyd gadarnhau na ofynnir i athrawon wneud unrhyw weithgareddau yn ystod amser a enillwyd nad ydynt yn y rhestr isod (roedd y rhain wedi eu rhestru cyn hyn yn Atodiad 4 y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD)):

- datblygu/adolygu deunyddiau cwricwlwm adrannol/pwnc, cynlluniau gwaith, cynlluniau gwersi a pholisïau wrth baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd;
- rhoi cymorth i gydweithwyr mewn gweithgareddau addysgu tîm priodol sydd wedi eu cynllunio;
- cymryd grwpiau o ddisgyblion i roi cymorth dysgu ychwanegol iddynt;
- cefnogi disgyblion dewisol gyda gwaith cwrs;
- ymgymryd â gweithgareddau wedi eu cynllunio gyda disgyblion sy'n symud grŵp blwyddyn neu'n symud o ysgolion cynradd;
- pan fydd gan yr ysgol bolisi i ryddhau'r holl staff ar gyfer DPP yn ystod sesiynau ysgol, gellir defnyddio amser a enillwyd.

**Goruchwylio arholiadau**

Dylai'r polisi gadarnhau:

- bod gan yr ysgol adnoddau priodol, gan gynnwys lefel ddigonol o staff cymorth, i oruchwylio arholiadau, TASau neu arholiadau/asesiadau ffug.

**Cynlluniau wrth gefn**

Dylai'r polisi gadarnhau bod yr ysgol wedi gadael isafswm o 50 awr yn y gyllideb amser dan gyfarwyddyd sydd heb gael eu clustnodi a gellir eu defnyddio i ddelio ag argyfyngau, ar yr amod nad yw hyn yn gwrthdaro â'r egwyddorion sydd wedi eu nodi uchod.

**Lleihau'r disgwyliadau ynglŷn ag amser dan gyfarwyddyd**

Dylai'r polisi gadarnhau y bydd yr ysgol yn ymgysylltu â'r gweithwyr a'u hundebau llafur cydnabyddedig i ganfod y meysydd lle gellir gostwng yr amser dan gyfarwyddyd a gwneud gwelliannau er mwyn rhoi amser rhydd i'r gweithwyr i'w galluogi i gael cydbwysedd boddhaol rhwng bywyd a gwaith.

**Apelio**

Dylai'r polisi gadarnhau:

- bod trefnau i alluogi i athrawon wneud apêl mewn perthynas â'u calendrau amser dan gyfarwyddyd, sydd o leiaf yn ateb y gofyniad statudol ar ddatrys anghydfodau; a
- bod hawl gan bob athro ac athrawes gael cwmni cynrychiolydd undeb llafur mewn unrhyw gyfarfod o'r fath.

**Monitro ac adolygu**

Dylai'r polisi gadarnhau:

- y caiff y polisi ynglŷn â chalendrau amser dan gyfarwyddyd ei adolygu a'i fonitro er mwyn ei reoli'n effeithiol, ac y caiff unrhyw ddata ystadegol priodol ei rannu bob blwyddyn gyda'r undebau llafur cydnabyddedig.

Mae NASUWT yn dweud yn glir y dylai eich amser gwaith gael ei ddiffinio'n glir yn eich contract cyflogaeth. Dylai hyn fod yn amodol ar ymgynghoriad gyda gweithlu'r ysgol a'u hundebau llafur cydnabyddedig, a dylid gwneud hyn yn flynyddol yn rhan o galendr amser dan gyfarwyddyd.

Os bydd eich ysgol yn ceisio newid y diwrnod ysgol ac os ydych yn credu y gallai hyn gael effaith niweidiol ar eich llwyth gwaith, dylech gysylltu â'ch Cynrychiolydd Ysgol neu'ch Cymdeithas Leol, am eu bod nhw yn y sefyllfa orau i ymdrin â materion sy'n berthnasol i'r aelodau i gyd, ar eich rhan chi ac ar ran athrawon eraill yn eich ysgol.

Pan gysylltwch â'ch Cymdeithas Leol, byddai'n ddefnyddiol pe baech chi'n rhoi'r wybodaeth a ganlyn:

- eich enw llawn; a
- manylion yr ysgol lle'r ydych yn gweithio, yn cynnwys gwybodaeth am yr awdurdod lleol neu'r ymddiriedolaeth academi.